## Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2004

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**Cynnig i ethol aelodau i`r Pwyllgor Llywodraeth Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
*NDM1780 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4 yn ethol Mike German (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn lle Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol)

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 28
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.00pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl.

**2.52pm**
**Datganiad Busnes**
Gwrthwynebodd mwy na 10 Aelod y datganiad busnes.
**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 57
**Cytunwyd ar y datganiad busnes**

**3.04pm**
**Pwynt o Drefn**
**Karen Sinclair** ar yr esboniad o'r ystadegau a ddefnyddiwyd yn ystod trafodaeth ynghylch y Datganiad ar yr Amserlen Gyfnodol yn Rhagfyr 2003.

**3.06pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Brosiectau Arloesi a Datblygu y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Nawdd Llywodraeth y Cynulliad i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

**3.44pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes: Ehangu Mynediad i Addysg Uwch**

**4.17pm**

**Cynnig i gymeradwyo Newidiadau Sylweddol i Wariant o fewn y Flwyddyn o dan Reol Sefydlog 19**
*NDM1777 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)*
Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04 a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth 13 Ionawr.

*Anfonwyd y tablau canlynol ynghyd â nodyn esboniadol drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004:*
*Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth bresennol y Cynulliad rhwng y Prif Grwpiau Gwariant; ac*
*Mae Tabl 2 yn dangos y darpariaethau diwygiedig arfaethedig ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant ar ôl ystyried yr adnoddau ychwanegol.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.28pm**
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**
*NDM1778 Karen Sinclair (De Clwyd)*
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad, ar 13 Ionawr 2004 ar y gorchymyn drafft **Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig)(Sir Gaerfyrddin) 2004**; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig)(Sir Gaerfyrddin) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2003;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2003; a
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004.

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004 ar y rheoliadau drafft **Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch (Diwygio) (Cymru) 2004**; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau (Graddio) Carcasau Moch (Diwygio) (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Rhagfyr 2003

3.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at

Aelodau’r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004 ar y gorchymyn drafft **Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004** a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2004 yn cael ei wneud yn unol â:
i) y gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2003; a
ii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004

4.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Ionawr 2004 ar y rheoliadau drafft **Rheoliadau’r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) (Diwygio) 2004**; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau’r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) (Diwygio) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â’r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2003 a’r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Rhagfyr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.29pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol**
*NDM1779 Jonathan Morgan (Canol De Cymru)*
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gresynu at fethiant Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yng Nghymru a’r ffaith ei bod yn parhau i fethu â gwarchod buddiannau pobl Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Karen Sinclair (De Clwyd)**
Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" ac yn ei le rhoi:
1. Yn croesawu'r cynnydd parhaus mewn buddsoddiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'r camau sydd wedi'u cymryd i sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn cael eu darparu mewn modd effeithiol a chydlynol.

2. Yn cefnogi'r rhaglen i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol sydd wedi'i nodi ym Maniffesto'r Blaid Lafur, ac a gymeradwywyd gan bobl Cymru ym mis Mai 2003.

Mae copi o Faniffesto 2003 Plaid Lafur Cymru ar gael ar y gwefannau canlynol:

**Cymraeg** http://www.llafurcymru.org.uk/policies/manifesto2003.htm
**Saesneg** http://www.waleslabourparty.org.uk/policies/Working%20Together%20For%20Wales.pdf

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**

O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y Gwelliant 1**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 26; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.33pm**

**…………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 21 Ionawr 2004**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 16 Ionawr 2004**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cadw 2002-03 - LD2571

**Dogfennau a Osodwyd ar 15 Ionawr 2004**

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Diwrnod Arferol Etholiad) (Cymru) 2004 - LD2570

**Dogfennau a Osodwyd ar 14 Ionawr 2004**

Domiciliary Care Agencies (Wales) Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD2547 Dim fersiwn Gymraeg ar Gael

The Water Industry (Prescribed Conditions) (Wales) Regulations 2004: Explanatory Memoranda - LD2558 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Water Industry (Prescribed Conditions) (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2559 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Water Industry (Prescribed Conditions) (Wales) Regulations 2004 - LD2569 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Local Government (Ordinary Day of Elections) (Wales) Order 2004: Regulatory Appraisal - LD2560 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Council Tax (Demand Notices) (Amendment) (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2561 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Removal of Obstructions from Highways (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2562 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Conduct of Members (Model Code of Conduct) (Amendment) (Wales) Order 2004: Regulatory Appraisal - LD2563 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Processed Cereal-based Foods and Baby Foods for Infants and Young Children (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2564 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Food (Provisions Relating to Labelling) (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2565 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Infant Formula and Follow-on Formula (Amendment) (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2566 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Housing Renewal Grants (Amendment) (Wales) Regulations 2004: Regulatory Appraisal - LD2567 Dim fersiwn Gymraeg ar gael

The Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Amendment) (Wales) Regulations 2004 - Regulatory Appraisal - LD2568 Dim Fersiwn Gymraeg ar gael

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2548

Rheoliadau Codi Rhwystrau oddi ar Briffyrdd (Cymru) 2004 - LD2554

Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004 - LD2557

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2004 - LD2551

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2555

Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2556

Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2004 - LD2549

Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2550

Rheoliadau Bwyd (Darpariaethau sy'n ymwneud â Labelu) (Cymru) 2004 - LD2552

Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2553